**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 07-02(p7)**

**Dyddiad:** **24 Ebrill 2002**
**Amser:** **14:00 hyd 17:30**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**
**Teitl :** **PWERAU STATUDOL A DDEFNYDDIR YN YR ADRAN DATBLYGU ECONOMAIDD**

**Diben**

1. Hysbysu'r Pwyllgor ynghylch y pwerau statudol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu defnyddio i ddatblygu economi Cymru.

**Crynodeb**

2. Rhaid i'r cymorth a roddir i ddiwydiant gydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau'r UE ar Gymorth Gwladol. Mae'r papur hwn yn nodi'r pwerau statudol o fewn y fframwaith hwn sydd ar gael ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru, ac yn esbonio sut maent yn cael eu defnyddio. Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i'w rheoleiddio trwy is-ddeddfwriaeth ac iddynt effeithio ar fusnesau yng Nghymru, rhaid wrth weithredu gan Weinidogion a swyddogion.

3. Prif adrannau rheoleiddio Llywodraeth y DU sy'n effeithio fwyaf ar fusnesau yng Nghymru. Mae manylion eu gweithgareddau presennol a'r rhai sydd ar y gweill i'w gweld yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Diwygio Rheoliadol a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Chwefror eleni. Mae Gweinidogion heblaw'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd hefyd yn gallu symbylu is-ddeddfwriaeth all effeithio ar fusnesau yng Nghymru.

4. Mae'r papur hwn er gwybodaeth ac fe hysbysir y Pwyllgor am unrhyw newidiadau i reoliadau sy'n effeithio ar fusnesau yng Nghymru.

**Amseru**

5. Dyma gyfle i hysbysu'r Pwyllgor ynghylch y fframwaith sy'n galluogi'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a swyddogion i ddarparu cymorth ar gyfer datblygu economaidd.

**Fframwaith Cymorth Gwladol yr UE**

6. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gosod canllawiau ar ddefnyddio adnoddau cyhoeddus i gynorthwyo diwydiant. Mae hyn yn sicrhau nad yw cymorth gwladol yn ystumio cystadleuaeth yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn effeithio ar faint o gymorth y gellir ei roi, ble y gellir ei

rhoi, y gweithgareddau y mae'n eu cefnogi a pha ddiwydiannau y gellir eu cefnogi. Cyflwynwyd gwybodaeth ynghylch y fframwaith hwn i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2001 yn y papur ar Gymorth Dewisol Rhanbarthol (EDC-02-01(p2)).

**Cydymffurfio**

7. Mae mwyafrif llethol y pwerau a ddisgrifir isod naill ai wedi eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu yn cael eu gweithredu ganddo, ac fe'u heithriwyd rhag cyfyngiadau'r Trysorlys. Dirprwywyd y pwerau hyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a swyddogion. Nid oes materion o briodoldeb na rheoleidd-dra yn codi o'r papur hwn.

**Fframwaith deddfwriaethol ar gyfer datblygu economaidd**

8. Mae'r pwerau datblygu economaidd sydd ar gael i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn eang a chynhwysfawr. Nid yw'r Cynulliad yn gyfrifol am reoleiddio yr un ohonynt. Mae manylion prif Adrannau'r Deddfau perthnasol i'w gweld yn yr Atodiad. Mae'r tabl isod yn dangos y gwariant sy'n codi o ganlyniad i weithredu'r pwerau hyn.

| **Deddf Seneddol** | **Gweithgareddau'r Cynulliad** |
|---|---|
| Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 | Gweithgareddau Awdurdod Datblygu Cymru |
| Deddf Datblygu Diwydiannol 1982 | Cymorth Dewisol Rhanbarthol<br><br>Grant Buddsoddi y Cynulliad<br><br>Cyngor i ddiwydiannau ynghylch arloesi<br><br>A, than yn ddiweddar, Grantiau Arloesedd Rhanbarthol a Chyswllt Busnes (trosglwyddwyd y rhain i Awdurdod Datblygu Cymru) |
| Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 | Gweithgareddau Bwrdd Croeso Cymru |
| Deddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 | Rhaglenni Arloesi Amrywiol<br><br>Ymddiriedolaeth Carbon Cymru<br><br>Rhaglenni Busnes a'r Amgylchedd |
| Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 | Ariannu Cyngor Caerdydd er mwyn iddo dalu costau Awdurdod y Porthladd<br><br>Cronfa Ffordd i Ffyniant a'r Pot Arian Cyfatebol |

| | |
|---|---|
| Deddf Llywodraeth Cymru 1998 | Materion Ewropeaidd, allanol a masnachu rhyngwladol |
| Deddf Twristiaeth (Hyrwyddo Dramor) (Cymru) 1992 | Pwer Bwrdd Croeso Cymru i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru y tu allan i'r DU |

**Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad sy'n effeithio ar fusnesau yng Nghymru**

9. Ym mis Rhagfyr 2001 anfonwyd adroddiad i'r Pwyllgor yn rhestru Gorchmynion

Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad a oedd yn effeithio ar fusnesau yng Nghymru a wnaed rhwng mis Gorffennaf 1999 a Gorffennaf 2001 (EDC-17-01(p6)). Bydd adroddiad pellach ar Orchmynion is-ddeddfwriaeth y Cynulliad ar gael yn nes ymlaen eleni.

10. Ym mis Chwefror 2002 gwnaeth yr Uned Effaith Rheoleiddio yn Swyddfa'r Cabinet yn Whitehall gyhoeddi Cynllun Gweithredu Llywodraeth y DU ar gyfer Diwygio Rheoliadol. Cewch hyd iddo ar

http://www.cabinet-office.gov.uk/regulation/actionplan/docs/rrap.pdf.

Gweithgareddau prif adrannau rheoliadol y DU a ddisgrifir yn bennaf ynddi. Bydd eu heffaith ar fusnesau yng Nghymru yn cael ei fonitro, a bydd y Pwyllgor yn cael eu hysbysu.

**Camau i'r Pwyllgor eu cymryd**

11. Bydd y Pwyllgor yn nodi:

- Bod rhaid i gymorth i ddiwydiant gydymffurfio â chanllawiau'r UE ar Gymorth Gwladol
- Pwerau eang sydd ar gael i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu economaidd
- Nad yw'r Cynulliad yn gyfrifol am reoleiddio'r pwerau hyn
- Y bydd adroddiad blynyddol ar Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad sy'n effeithio ar fusnesau yng Nghymru yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor
- Bydd y Pwyllgor yn cael ei hysbysu o effaith Cynllun Gweithredu Llywodraeth y DU ar gyfer Diwygio Rheoliadol ar Gymru

**Cyswllt**

12. Uned Busnes EDD, Yr Is-adran ICM.